

Oriel Gelf **Glynn Vivian** Art Gallery

ODDI AR Y SAFLE/OFFSITE

Ailddatblygu Oriol Gelf Glynn Vivian Cwestiynau Cyffredin (CC)

- **Pryd byddwch chi'n agor?**

Mae prosiect ailddatblygu Oriol Gelf Glynn Vivian yn dilyn yr amserlen ar hyn o bryd, ac rydym yn gweithio tuag at ddyddiad lansio cyhoeddus yn haf 2016, pan fydd yr oriel yn agor ei drysau gyda rhaglen o arddangosfeydd, gweithgareddau a digwyddiadau modern a hanesyddol.

Rhowch wybod i ni os hoffech ymuno â'n rhestr bostio a gallwn roi'r diweddaraf i chi am holl raglenni oddi ar y safle yr oriel yn y cyfnod cyn y digwyddiad ailagor.

- **Pam mae wedi cymryd mor hir?**

Yn anffodus, er gwaethaf proses gaffael drwyadl, aeth y contractwyr adeiladu gwreiddiol i'r wal yn annisgwyl. Felly, roedd rhaid i'r cyngor gyflwyno'r contract i'w dendro unwaith eto.

- **Pwy sy'n gyfrifol am y prosiect?**

Dinas a Sir Abertawe sy'n rheoli'r prosiect.

- **Beth rydych chi wedi bod yn ei wneud ers iddi gau/beth mae'r staff yn ei wneud?**

Mae'r oriel yn parhau i gyflwyno rhaglen oddi ar y safle gyffrous o arddangosfeydd i'n cynulleidfaoedd, gan weithio gyda phartneriaid yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol; hefyd, mae uchafbwyntiau o'n casgliadau i'w gweld yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru yng Nghaerdydd. Mae gennym hefyd raglen ddysgu ddeinamig sy'n cynnwys darlithoedd a sgysiau, cyfres artist preswyl a rhaglen llawn gweithgareddau a digwyddiadau yn ein canolfan oddi ar y safle yn y YMCA, Ffordd y Brenin, Abertawe. Gellir gweld manylion ar ein gwefan.

- **Ble mae'r casgliad?**

Mae uchafbwyntiau o'n casgliadau i'w gweld yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru yng Nghaerdydd, ac mae gweithiau eraill yn cael eu cadw ar gyfer ail-lansiad yr oriel.

Gellir gweld uchafbwyntiau eraill o'n casgliad ar ein gwefan.

- **Ble gallaf weld delweddau/lluniau ohoni pan fydd wedi gorffen?**

Mae delweddau, cynlluniau pensaer a mwy o wybodaeth ar gael ar ein gwefan.

- **Ble gallaf gael y diweddaraf am gynnydd?**

Rhowch wybod i ni os hoffech ymuno â'n rhestr bostio a gallwn roi'r diweddaraf i chi am holl raglenni oddi ar y safle yr oriel yn y cyfnod cyn y digwyddiad ailagor. Mae mwy o fanylion ar gael ar ein gwefan: www.glynnviviangallery.org.uk

- **Ble bydd y cafffi?**

Bydd man cymdeithasol newydd â lluniaeth a mynediad wi-fi.

- **Pa welliannau rydych yn eu gwneud?**

Mae delweddau, cynlluniau pensaer a mwy o wybodaeth ar gael ar ein gwefan. Prif ddiben y gwaith ailddatblygu yw cadw a gofalu am adeilad gwreiddiol yr oriel, gan sicrhau bod ein holl

waith yn hygyrch drwy osod lifft newydd i bob llawr a rhaglenni newydd cyffrous ar gyfer yr arddangosfeydd, y casgliad o arddangosiadau a'r dysgu. Byddwn yn gwella holl isadeiledd yr oriel, gan gynnwys systemau gwres a goleuadau newydd, gan adnewyddu'r ardaloedd dysgu a chynnwys gyda gweithdai newydd, theatr ddarlithio newydd ac ardal adnoddau gwybodaeth lle croesewir ymwelwyr. Caiff y llyfrgell a'r archifau eu hadnewyddu hefyd, a bydd yn bosib gweld y gwaith yn datblygu yn ein stiwdios cadwraeth newydd. Mae mynedfa newydd i'r adain fodern yn golygu y bydd pobl ag anawsterau symudedd yn gallu cael mynediad i'r oriel o'r palmant, yn syth i'n derbynfa newydd sy'n cynnwys siop yr oriel. Yn y tymor hwy, rydym yn codi arian ar gyfer Gardd Oriel newydd arfaethedig, a fydd yn cynnwys adnodd gwyrdd a chynaliadwy yng nghanol y ddinas - felly cadwch lygad amdani!

- **Gydag adeilad mwy, a fyddwch chi'n arddangos mwy o'r casgliad parhaol?**
Byddwn yn ychwanegu ardal newydd yn yr oriel ar gyfer arddangosiadau'r casgliad parhaol, a byddwn yn tynnu sylw at y gymynrodd wreiddiol fel teyrnged i Richard Glynn Vivian, a sefydlodd yr oriel.
- **Pwy sydd wedi ariannu gwaith ailddatblygu'r oriel, a phwy yw'r contractwyr a'r penseiri? Faint mae wedi costio?**
Ariennir gwaith ailddatblygu'r oriel gan Gyngor Celfyddydau Cymru, Llywodraeth Cymru a Dinas a Sir Abertawe, ac mae wedi costio £8.4 miliwn. Cefnogir y prosiect yn hael hefyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri.

Y penseiri yw *Powell Dobson Architects* a'r tîm adeiladu yw *John Weaver (Contractors) Ltd.* Mae'r ddau'n seiliedig yn Abertawe.

Os hoffech ymuno â'n rhestr bostio, cysylltwch â'r oriel drwy ffonio 01792 516900 neu ewch i www.glynnviviangallery.org

Oriel Gelf Glynn Vivian

Ystafell 153, Neuadd y Ddinas, Abertawe SA1 4PE

Ff 01792 516900

Ff 01792 516903

E-bost glynn.vivian.gallery@swansea.gov.uk

www.glynnviviangallery.org

Cefnogir drwy grant gan Gyngor Celfyddydau Cymru



City and County of Swansea
Dinas a Sir Abertawe

